**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PWYLLGOR ARCHWILIO**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Archwilio Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd 27ain Medi 2010 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 o'r gloch.

PRESENNOL

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd E C George (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Y Cynghorydd D Barratt | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cynghorydd M Griffith | Cyngor Gwynedd |
| Y Cynghorydd W Knightly | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cynghorydd D Mackie | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cynghorydd A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cynghorydd G O Williams | Cyngor Gwynedd |

HEFYD YN BRESENNOL:

D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorlys, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); K V Williams (Adran Archwilio, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); J West (KPMG); J Joyce (Cydlynydd Asesiad Gwella, Swyddfa Archwilio Cymru); C Dingle (Rheolwr Cyllid); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

Ymddiheuriadau:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd P C Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cynghorydd E M Jones | Cyngor Gwynedd |
| Y Cynghorydd N M Jones | Cyngor Sir y Fflint |
| C Everett | Clerc |
| M Halstead | Pennaeth Archwilio, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

Cyn i'r cyfarfod ddechrau, hysbyswyd yr Aelodau am farwolaeth y diffoddwr tân Derrick Williams a fu farw yn oriau mân fore Sul y 26ain o Dachwedd. Roedd Mr Williams wedi bod yn ddiffoddwr tân ffyddlon ym Mlaenau Ffestiniog ers dros 30 mlynedd. Bydd y Gwasanaeth yn darparu cymaint o gefnogaeth ac sy'n bosib i deulu Mr Williams. Gofynnodd y Cadeirydd i bawb sefyll am funud o dawelwch fel arwydd o barch tuag at Mr Williams.

1 DATGANIADAU O DDIDDORDEBAU

1.1 Dim.

2 COFNODION

2.1 Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7fed Mehefin 2010 fel cofnod gwir a chywir o'r trafodion. Nid oedd materion yn codi.

3 DATGANIAD O GYFRIFON 2009-10

3.1 Cyflwynwyd y Datganiad o Gyfrifon i'r Aelodau er cymeradwyaeth. Roedd yr Awdurdod Tân ac Achub wedi rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pwyllgor Archwilio i gymeradwyo'r cyfrifon a oedd eisoes wedi eu harchwilio. Nodwyd fod y Panel Gweithredol hefyd wedi cael cyfle i weld y cyfrifon, ac ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau.

3.2 Cafwyd cyflwyniad gan Sandra Forrest a eglurai wybodaeth gefndirol ac amlygodd ddau faes allweddol - Ailbrisio Asedau ac Ymrwymiadau Pensiwn.

3.3 Yn ôl FRS15 mae'n ofynnol i'r Awdurdod ailbrisio ei asedau bob 5 mlynedd; er mwyn cydymffurfio â hyn ail-brisiwyd yr asedau yn 2009-10 ac mae'r tabl isod yn crynhoi'r wybodaeth. Un o'r addasiadau a wnaed i'r cyfrifon oedd addasu'r gwybodaeth Incwm a Gwariant i ddangos yr amhariad (ailbrisiad i lawr).

| | **Tir** | **Adeiladau** | **Cyfanswm £** |
|---|---|---|---|
| **I fyny** | 113,150 | 2,881,931 | 2,995,081 |
| **I lawr** | -852,325 | -1,174,306 | -2,026,631 |
| | | Safle Net | 968,450 |

3.4 Mae gwerth net yr Awdurdod wedi gostwng o -£126,016,000 i -£199,915,000 yn bennaf oherwydd newidiadau i'r ymrwymiadau pensiwn ar gyfer cynllun pensiwn diffoddwyr tân nad ei ariannir. Mae ymrwymiadau pensiwn wedi cynyddu wrth £75miliwn oherwydd newid i'r rhagdybiaeth ariannol a ddefnyddiwyd ar gyfer 2009/10. Addasiadau cyfrifo yw'r ymrwymiadau hyn ac ni adlewyrchir ar ffurf gostyngiad mewn arian parod.

3.5 Er bod yr Awdurdod wedi bod â chronfa ddarpariaeth (dyletswydd gyfredol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol) yn y gorffennol, nodwyd mai 2009-10 oedd y flwyddyn gyntaf gallai'r Awdurdod gael cronfa wrth gefn (rhoi adnoddau o'r neilltu ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol) oherwydd newidiadau yn y ddeddfwriaeth. Roedd yr Awdurdod wedi rhoi arian o'r neilltu ar gyfer nifer o gronfeydd wrth gefn gweithredol ar ddiwedd 2009/10, ac roedd y manylion wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

3.6 Dyma'r drydedd flwyddyn roedd KPMG LLP wedi archwilio'r datganiad o gyfrifon. Roedd yr adroddiad, unwaith eto, yn gadarnhaol ac yn adlewyrchu'n dda ar yr Awdurdod. Nid oeddynt wedi cael hyd i unrhyw gamddatganiadau heb eu cywiro na gwendidau - am y tro cyntaf yn hanes yr Awdurdod. Yr unig newid yn 'llinell isaf' y cyfrifon, ar ôl yr archwiliad, oedd cynyddu'r tanwariant wrth £42,000 - roedd hwn wedi ei roi o'r neilltu ar gyfer cronfeydd wrth gefn gweithredol.

3.7 Gorffennwyd y cyflwyniad gydag esboniad am ddatganiad cyfrifon yn y dyfodol. Byddant yn cael eu gwneud ar sail yr IFRS (Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol) a bydd y Datganiad o Reolaeth Fewnol yn newid i Ddatganiad Llywodraethu. Rhagwelir hefyd y bydd y tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru yn safoni sut y cynhyrchir eu cyfrifon.

3.8 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon 2009-10 a oedd eisoes wedi ei archwilio, a chydnabod y llythyr o gynrychiolaeth anfonwyd at yr Archwiliwr Allanol.**

4 ARCHWILIAD O DDATGANIADAU CYFRIFYDDU - ISA260

4.1 Cyflwynodd Joanne West y papur a hysbyswyd yr Aelodau fod yr archwiliad wedi bod yn llwyddiannus gydag adroddiad cadarnhaol wedi ei gynhyrchu yn nodi nad oedd angen gwelliannau i'r rheolaethau mewnol.

4.2 Tynnwyd sylw Aelodau at y canlynol:

- "Nid oes gennyf unrhyw bryderon ynghylch agweddau ansoddol eich arferion cyfrifyddu ac adrodd ariannol;
- nid oes camddatganiadau nas cywirwyd;
- ni ddisgwyliaf addasu adroddiad safonol yr archwilydd;
- ni chanfuwyd unrhyw wendidau perthnasol o ran rheolaeth fewnol;
- nid oes unrhyw faterion eraill y mae'n ofynnol gan Safonau Archwilio Rhyngwladol eraill i mi gyflwyno adroddiad i chi arnynt; ac
- nid oes unrhyw faterion archwilio eraill o ddiddordeb llywodraethu i gyflwyno adroddiad arnynt."

4.3 Cadarnhawyd fod yr holl argymhellion o adroddiad llynedd wedi'u cwblhau.

4.4 Diolchodd yr Aelodau i staff y Gwasanaeth a Chyngor Sirol Bwrdeistref Conwy am eu gwaith.

4.5 **PENDERFYNWYD nodi'r Archwiliad o Ddatganiadau Cyfrifyddu.**

5 SAFONAU ADRODD ARIANNOL RHYNGWLADOL (IFRS) - ADOLYGIAD O'R GWAITH A WNAED HYD AT DDYDDIAD Y CYFARFOD

5.1 Derbyniodd Aelodau gyflwyniad ar yr IFRS yng nghyfarfod mis Mehefin. Ers hynny mae KPMG wedi adolygu'r gwaith a wnaed ar ddatblygu datganiadau cyfrifyddu. Gan fod canllawiau ar sut i baratoi mantolen yn dal i gael eu datblygu, nid oedd posib cwblhau'r gwaith; fodd bynnag, nid oes unrhyw broblem gyda'r gwaith a wnaed hyd yn hyn.

5.2 Dywedodd Joanne West wrth yr Aelodau fod yr archwilwyr yn gefnogol o'r syniad i safoni cyfrifon Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru, credai byddai hyn yn symleiddio'r broses archwilio a gallai peth o'r gwaith gael ei rannu rhwng y cyfrifwyr.

5.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

6 SAFONAU ADRODD ARIANNOL RHYNGWLADOL (IFRS) - DIWEDDARIAD AR WEITHREDU'R BROSES A NEWIDIADAU ERAILL I'R DATGANIAD O GYFRIFON AR GYFER 2010-11

6.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i ddarparu diweddariad ar weithredu'r IFRS ac i hysbysu Aelodau am newidiadau eraill i'r cyfrifon ar gyfer blwyddyn ariannol 2010-11.

6.2 Hysbyswyd Aelodau yn y cyfarfod diwethaf ynglŷn â'r buddion gweithwyr - os nad fyddai newidiadau statudol yn cael eu gwneud byddai rhaid talu buddion gweithwyr yn y flwyddyn y'i henillir yn dilyn cyflwyniad yr IFRS. Amcangyfrifwyd mai'r gost i'r Awdurdod fyddai £369,000. Fodd bynnag, mae deddfwriaeth i alluogi'r Awdurdod i wrthdroi'r croniad wedi ei gynnwys fel rhan o'r Rheoliadau.

6.3 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi byddai cyfrifon 2009/10 ar eu newydd wedd wedi eu cwblhau erbyn diwedd Hydref 2010;**

**(ii) nodi'r diweddariad ynglŷn â buddion gweithwyr;**

**(iii) nodi byddai'r datganiad llywodraethu blynyddol (yn lle'r datganiad o reolaeth fewnol) yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ac yna'r Awdurdod llawn ym Mehefin 2011;**

**(iv) cymeradwyo fod y Pwyllgor Archwilio yn derbyn y cyfrifoldeb o graffu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.**

7 ARCHWILIADAU MEWNOL A WNAED YN DDIWEDDAR

7.1 Cafwyd diweddariad gan Keith Williams am yr archwiliadau mewnol a wnaed yn ddiweddar. Nodwyd mai yn ail hanner y flwyddyn byddai'r mwyafrif o'r gwaith yn cael ei wneud a byddai'n cynnwys adolygu gwarchod data a diogelwch tân cymunedol.

7.2 Yn dilyn yr archwiliad cyntaf, mae adolygiad dilynol yn cael ei gynnal o fewn chwe mis. Barn wreiddiol yr adroddiad archwilio am yr adran incwm oedd 'boddhaol' gyda saith argymhelliad. Roedd yr archwiliad dilynol wedi ei gwblhau'n ddiweddar ac ailaseswyd y farn fel 'da'.

7.3 Ymgymerwyd ag archwiliad mewnol o orsafoedd dyletswydd rhan amser yn Sir Ddinbych, gan gymryd i ystyriaeth nifer o wahanol agweddau o redeg gorsaf dyletswydd rhan amser. Roedd argymhellion wedi eu gwneud a bydd archwiliad dilynol yn nes ymlaen. Roedd yr adroddiad wedi ei rannu gyda holl reolwyr gweithredol y siroedd sy'n gyfrifol am orsafoedd dyletswydd rhan amser.

7.4 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

Cytunodd y Cadeirydd i gais y Dirprwy Brif Swyddog Tân i roi diweddariad i Aelodau am broses y gyllideb ar gyfer 2011-12.

8 DIWEDDARIAD AM BROSES Y GYLLIDEB 2011-12

8.1 Hysbyswyd Aelodau fod y Panel Gweithredol wedi sefydlu gweithgor bach i ymdrin â datblygiad y gyllideb, mae un Aelod o bob Cyngor sir ar y gweithgor. Cyhoeddir yr adolygiad gwariant cynhwysfawr ar 20fed Hydref a bydd rhaid i'r Awdurdod osod y gyllideb yng nghyfarfod mis Rhagfyr. Mae'r Cynulliad yn cynllunio ar gyfer gostyngiad o 3% blwyddyn wrth flwyddyn. Roedd y gweithgor wedi cyfarfod ar 14eg Medi i drafod gwahanol opsiynau. Roedd mwy o opsiynau yn cael eu paratoi ar gyfer trafodaeth yng nghyfarfod y gweithgor ar 8fed Hydref.

8.2 Cadarnhawyd fod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal gyda phob pennaeth adran i drafod eu cyllideb a ble gellid gwneud gostyngiadau.

8.3 Ar hyn o bryd mae cyfraniad awdurdodau cyfansoddol, ar gyfartaledd, yn 2.8% o'u cyllideb, petai hwn yn cael ei ostwng i 2.5%, byddai'n golygu gostyngiad o 10% yng nghyllideb y Gwasanaeth. Nodwyd byddai cyllideb yr un faint ag eleni hefyd yn cael effaith ar unwaith.

8.4 Wrth ymateb i gwestiwn gan Aelod am ran aelodau'r Pwyllgor Archwilio yng nghynllunio'r gyllideb, cadarnhaodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân byddai holl Aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub yn derbyn llyfryn opsiynau i ostwng y gyllideb a fyddai'n eu helpu i ffurfio'r gyllideb refeniw ar gyfer 2011/12.

8.5 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**